

Cynllun busnes

2026 - 2027



Cynnwys

Rhagair	3
Ein hymrwymiaadau yn 2026-2027	5
Ein swyddogaethau corfforaethol	12
Ein cyllid	14

Rhagair



Daw cynllun busnes eleni ar adeg hollbwysig i gyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr.

Ym mis Chwefror 2026, nododd y Llywodraeth gyfeiriad beiddgar ar gyfer diwygio yn ei Phapur Gorchymyn *System Cyfiawnder Ieuenctid Fodern*, a oedd yn nodi'r gwaith mwyaf sylweddol o ail-lunio'r system mewn cenhedlaeth. Mae'r diwygiadau a nodir yn y papur yn cydnabod y cynnydd rhyfeddol a wnaed ers Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, sef y Ddeddf a sefydlodd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI), ynghyd â'r cyd-destun gwahanol iawn yr ydym yn gweithredu ynddo. Er bod y system cyfiawnder ieuenctid yn parhau i fod yn un o lwyddiannau mawr y gwasanaethau cyhoeddus yn

ystod y 25 mlynedd diwethaf - sydd wedi'i nodi gan ostyngiadau sylweddol yn nifer y plant sy'n ymuno â'r system cyfiawnder troseddol, yn y ddalfa ac yn troseddu - mae tirwedd heddiw yn fwy cymhleth, yn fwy cysylltiedig ac yn fwy heriol nag erioed.

Mae plant sy'n dod i mewn i'r system nawr yn aml yn dod â nifer o wendidau sy'n gorgyffwrdd gyda nhw. Mae themâu fel trosedd â chylllell, niwed ar-lein, trais yn erbyn menywod a merched, ymddygiad rhywiol niweidiol ac ecsbloetiaeth drwy Linellau Cyffuriau angen ymateb eang sy'n defnyddio adnoddau amrywiaeth o wahanol bartneriaid i ddarparu cymorth a sicrhau'r newidiadau sydd eu hangen i helpu plant i ffynnu. Yr heriau hyn, a disgwyliadau newydd y llywodraeth o'r system cyfiawnder ieuenctid, yw cefndir y cynllun busnes hwn.

Uchelgais y llywodraeth ar gyfer diwygio yw sicrhau bod y system cyfiawnder ieuenctid yn parhau i fod mor effeithiol ac effeithlon ag y mae angen iddi fod i ateb yr heriau dros y 25 mlynedd nesaf, gan gynnwys cydnabod bod llwythi achosion yn fwyfwy cymhleth ac yn cynnwys gwasanaethau cydgysylltiedig, a bod angen cymorth cenedlaethol cryfach a mwy integredig ar wasanaethau lleol i gyflawni ar ran plant, dioddefwyr a chymunedau.

Fel rhan o hyn, bydd cyfrifoldebau'r BCI yn newid. Bydd ein pwrpas craidd o ddatblygu a dehongli tystiolaeth o'r 'hyn sy'n gweithio', cefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau rheng flaen a gwreiddio'r fframwaith tystiolaeth plentyn yn gyntaf ymhellach yn parhau ond bydd yn cael ei fireinio. Bydd ein harbenigedd yn canolbwyntio ar **welliant parhaus** ar draws y system cyfiawnder ieuenctid ac yn defnyddio dealltwriaeth ddofn mewn amser real i gefnogi hynny. Pan fydd y diwygiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith, bydd gan y BCI fandad newydd i sbarduno'r arferion gorau, meithrin arloesedd, a darparu cymorth ymarferol a thematig i wasanaethau rheng flaen.

Bydd y gweithgareddau eraill sy'n cael eu cyflawni gan y BCI ar hyn o bryd, gan gynnwys swyddogaethau sy'n ymwneud â chynghori gweinidogion, monitro perfformiad gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, gosod safonau a gweinyddu grant craidd cyfiawnder ieuenctid, yn newid fel rhan o ddiwygiadau'r Llywodraeth. Mae hyn yn cynnwys cryfhau atebolrwydd yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar yr un pryd â chydabod uchelgais ehangach y llywodraeth i ddatganoli pŵer a galluogi arweinyddiaeth gryfach yn rhanbarthol ac yn lleol.


Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau bod y trosglwyddiad i'r trefniadau newydd yn esmwyth ac yn cael ei gynllunio'n ofalus. Ein blaenoriaeth ar y cyd yw darparu eglurder o ran rôl, pwrpas a swyddogaeth ar gyfer y Weinyddiaeth a'r BCI. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y system yn cynnal momentwm drwy'r cyfnod pontio, bod partneriaethau cyfiawnder ieuenctid lleol yn cael sefydlogrwydd, a bod arbenigedd ein tîm yn y BCI yn parhau i gefnogi canlyniadau cadarnhaol yn uniongyrchol i blant, dioddefwyr a chymunedau. Wrth i'r diwygiadau hyn ddatblygu, byddwn yn parhau i ymrwymo i'n dyletswyddau statudol cyfredol, ein partneriaid a'r bobl rydym yn eu gwasanaethu.

Mae'r cynllun busnes hwn yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd yn 2026–2027 i gefnogi'r system yn ystod y cyfnod hwn o newid. Byddwn yn parhau i sbarduno gwelliannau mewn gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol, dal ati i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â gwahaniaethau parhaus, cryfhau ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio ymhellach, ac yn defnyddio fframwaith tystiolaeth Plentyn yn Gyntaf ar draws ymarfer. Eleni, byddwn hefyd yn parhau i flaenoriaethu ein cyfranogiad mewn ymchwiliadau mawr, gan gynnwys y rhai i mewn i'r digwyddiadau a arweiniodd at yr ymosodiad yn Southport yn 2024 a'r ymateb i gam-drin a chamfanteisio rhywiol a gyflawnwyd gan y gangiau grŵmio, i sicrhau ein bod yn dysgu o leisiau a phrofiadau plant, teuluoedd a dioddefwyr o ran sut y bydd gwasanaethau'n datblygu.

Fel bob amser, mae pobl wrth galon ein cenhadaeth: y gweithwyr proffesiynol eithriadol ar draws y sector cyfiawnder ieuenctid; y plant rydym yn benderfynol o ddatgloi eu potensial; a'r dioddefwyr a'r cymunedau y mae eu diogelwch a'u hyder yn hollbwysig. Bydd gwasanaeth cyhoeddus, tegwch, tosturi a phenderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn parhau i fod yn werthoedd sy'n sail i'n gwaith yn ystod y cyfnod pontio hwn a thu hwnt.

Rwy'n cydnabod y bydd ansicrwydd i dîm y BCI yn ogystal â chydweithwyr ar draws y sector, ond rwy'n credu bod hon yn foment o her a chyfle. Mae'r diwygiadau'n sylweddol, a'm gobaith yw eu bod yn gyfle i adeiladu system sy'n fwy ymatebol, yn fwy gwydn ac yn fwy abl i gefnogi'r plant mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda chydweithwyr ar draws y system wrth i ni lunio pennod nesaf cyfiawnder ieuenctid gyda'n gilydd.



Steph Roberts-Bibby
Prif Weithredwr y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

Ein hymrwymyiadau yn 2026-2027

Mae strategaeth tair blynedd bresennol ein Bwrdd¹ yn gosod amcanion sy'n ein harwain wrth gyflawni ein swyddogaethau statudol. Mae'r tablau'n disgrifio'r gweithgareddau y byddwn yn ymgymryd â nhw yn 2026 - 2027 tuag at gyflawni'r amcanion hynny.

GWEITHGARWCH YMRWYMEDIG A CHANLYNIAD		AMCANION STRATEGOL AR GYFER 2024 - 2027 Y BWRDD CYFIAWNDER IEUENCTID		
		Amcan 1: Cefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau cyfiawnder ieuencid lleol	Amcan 2: Canolbwyntio ar fynd i'r afael â gwahaniaethau	Amcan 3: Hyrwyddo'r gwaith o fabwysiadu polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth
SWYDDOGAETH STATUDOL 1: <i>Monitro a goruchwyllo gweithrediad y system cyfiawnder ieuencid.</i>				
Perfformiad / Goruchwyllo	Parhau i fonitro ac adolygu perfformiad partneriaethau a gwasanaethau cyfiawnder ieuencid yn erbyn safonau a disgwyliadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a nodir yn ein Fframwaith Goruchwyllo .			
	Cefnogi partneriaethau a gwasanaethau cyfiawnder ieuencid i ddeall ac atgynhyrchu'r arferion gorau o bob rhan o'r sector a chynnal safonau o ran cyflawni.			
Cefnogi'r gwaith o gyflawni a gwella ymarfer	Cynnal ein Canllaw Rheoli Achosion i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r dystiolaeth a'r polisi diweddaraf, gan barhau i fod yn berthnasol i ymarfer y System Cyfiawnder Ieuencid a chefnogi'r gwaith o oruchwyllo'r sector.			
	Parhau i drefnu Fforymau Datblygu Ymarfer chwarterol i drafod yr heriau a llwyddiannau presennol gyda gwasanaethau cyfiawnder ieuencid, archwilio anghenion y sector a chasglu enghreifftiau o ymarfer.			

¹ Cynllun Strategol Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr 2024-27 - GOV.UK

GWEITHGARWCH YMRWYMEDIG A CHANLYNIAD		AMCANION STRATEGOL AR GYFER 2024 - 2027 Y BWRDD CYFIAWNDER IEUENCTID		
		Amcan 1: <i>Cefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau cyfiawnder ieuencid lleol</i>	Amcan 2: <i>Canolbwyntio ar fynd i'r afael â gwahaniaethau</i>	Amcan 3: <i>Hyrwyddo'r gwaith o fabwysiadu polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth</i>
	Adolygu'r iaith a ddefnyddir yn AssetPlus i sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r dystiolaeth Plentyn yn Gyntaf ddiweddaraf.			
	Cynnal cynnwys ar yr Hyb Adnoddau i sicrhau ei fod yn galluogi'r sector i gael gafael ar yr ymchwil a'r dystiolaeth ddiweddaraf, a'i fod yn cefnogi ymarfer.			
	Gwerthuso'r Uwchgynhadledd Arweinwyr Cyfiawnder Ieuencid a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2026 a chynllunio ar gyfer digwyddiad yn 2027 a fydd yn adlewyrchu rôl y BCI yn y dyfodol.			
Achosion difrifol	Parhau i gasglu a rhannu gwybodaeth â Gweinidogion am ddigwyddiadau difrifol sy'n ymwneud â phlant ac sy'n cael eu hadrodd i'r BCI, a chyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n tynnu sylw at themâu allweddol ac argymhellion.			
Datblygu'r gweithlu	Cwmpasu ac archwilio'r ffordd orau i Raglen Elevate gefnogi sut mae cydweithwyr o grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn symud i rolau uwch a strategol.			
SWYDDOGAETH STATUDOL 2: Darparu cyngor annibynnol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i weinidogion a swyddogion yn Whitehall a Llywodraeth Cymru.				
Llywio polisi a newid deddfwriaethol	Parhau i hyrwyddo dull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth lunio polisiâu a newid deddfwriaethol drwy ddarparu cyngor annibynnol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i Weinidogion, seneddwyr a rhanddeiliaid ar draws y llywodraeth a'r trydydd sector.			
Canllawiau statudol	Cefnogi'r Swyddfa Gartref i weithredu canllawiau newydd ar feddiant cylllyll a ddatblygwyd ddechrau 2026.			

GWEITHGARWCH YMRWYMEDIG A CHANLYNIAD		AMCANION STRATEGOL AR GYFER 2024 - 2027 Y BWRDD CYFIAWNDER IEUENCTID		
		Amcan 1: <i>Cefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau cyfiawnder ieuencid lleol</i>	Amcan 2: <i>Canolbwyntio ar fynd i'r afael â gwahaniaethau</i>	Amcan 3: <i>Hyrwyddo'r gwaith o fabwysiadu polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth</i>
Ymchwiliad Southport	Arwain yr ymateb i Argymhelliad 66 o Gam 1 yr Ymchwiliad (creu canllawiau i weithwyr proffesiynol eu rhoi i rieni, gofawyr ac aelodau o deulu plant a allai gael gafael ar arfau); a rhoi tystiolaeth i Ran 2.			
Datganiad sefyllfa	Datblygu datganiad sefyllfa newydd ar y dystiolaeth a'r data diweddaraf ynghylch y ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad plant ar-lein a'r goblygiadau i wasanaethau cyfiawnder ieuencid.			
Cymru	Cefnogi aelodau newydd o'r Senedd ar ôl etholiad mis Mai 2026 gyda briff ar dystiolaeth a data allweddol y maes cyfiawnder ieuencid.			
SWYDDOGAETH STATUDOL 3: Gweinyddu a dosbarthu cyllid grant.				
Cyllid grant craidd	Sicrhau bod cyllid grant craidd cyfiawnder ieuencid yn cael ei ddyrannu'n brydlon i 157 o awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr.			
	Cydweithio â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau bod disgwyliad y Gweinidogion i drosglwyddo'r rôl statudol i ddosbarthu cyllid grant cyfiawnder ieuencid i'r adran graidd yn cael ei gwblhau erbyn diwedd 2026/27.			
	Cefnogi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynigion ar gyfer datganoli cyllid cyfiawnder ieuencid i Lywodraeth Cymru.			
Cyllid Braenaru	Parhau i weinyddu cyllid wedi'i dargedu i gefnogi arloesedd drwy brosiectau braenaru. Yn 2026/27 bydd hyn yn cynnwys:			

GWEITHGARWCH YMRWYMEDIG A CHANLYNIAD		AMCANION STRATEGOL AR GYFER 2024 - 2027 Y BWRDD CYFIAWNDER IEUENCTID		
		Amcan 1: <i>Cefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau cyfiawnder ieuencid lleol</i>	Amcan 2: <i>Canolbwyntio ar fynd i'r afael â gwahaniaethau</i>	Amcan 3: <i>Hyrwyddo'r gwaith o fabwysiadu polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth</i>
	- Cynllun peilot rhyddhau ar drwydded dros dro Leeds i brofi manteision cael gweithiwr cymorth i wella canlyniadau polisi newydd o ryddhau dros dro o'r ddalfa. - Nod y cynllun braenaru Mynd i'r Afael â Gwahaniaethu Ethnig yw lleihau gorgynrychiolaeth plant du a threftadaeth gymysg yn y system cyfiawnder ieuencid, gan ganolbwyntio'n benodol ar ymyrraeth gynnar ac atal. - Mae cynllun braenaru Llety Llundain yn darparu llety â chymorth i fechgyn 16/17 oed yn hytrach nag ailsefydlu neu eu rhoi yn y ddalfa.			
SWYDDOGAETH STATUDOL 4: <i>Rhoi cymorth i ddefnyddio technoleg gwybodaeth ac offer ar gyfer y system cyfiawnder ieuencid.</i>				
Systemau gwybodaeth	Parhau i ddarparu, cynnal a gwella'r systemau gwybodaeth presennol a ddarperir i wasanaethau cyfiawnder ieuencid.			
	Sicrhau gwydnwch yn y dyfodol drwy weithio gyda'r cyflenwr y dyfarnwyd y contract iddo i greu ateb newydd ar gyfer Fframwaith Cymhwyso Cyfiawnder Ieuencid (YJAF); ac ymgymryd â gwaith dylunio strategol gyda thîm Digidol y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ystyried rhoi gwelliannau TG ar waith yn y dyfodol.			
Deallusrwydd Artiffisial (AI)	Sefydlu gweithgor i ystyried defnyddio deallusrwydd artiffisial yn y system cyfiawnder ieuencid a datblygu canllawiau ar ymarfer.			
SWYDDOGAETH STATUDOL 5: <i>Coladu a chyhoeddi gwybodaeth am berfformiad y system cyfiawnder ieuencid.</i>				


GWEITHGARWCH YMRWYMEDIG A CHANLYNIAD		AMCANION STRATEGOL AR GYFER 2024 - 2027 Y BWRDD CYFIAWNDER IEUENCTID		
		Amcan 1: <i>Cefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau cyfiawnder ieuencid lleol</i>	Amcan 2: <i>Canolbwyntio ar fynd i'r afael â gwahaniaethau</i>	Amcan 3: <i>Hyrwyddo'r gwaith o fabwysiadu polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth</i>
Dangosyddion perfformiad allweddol (DPA)	Parhau i ddefnyddio data DPA i fonitro perfformiad y gwasanaeth cyfiawnder ieuencid a nodi rhwystrau i leihau aildroseddu gan blant.			
Ystadegau blynyddol	Cyhoeddi'r datganiad ystadegol blynyddol ar gyfiawnder ieuencid ar gyfer 2025/26 gyda data ar y system cyfiawnder ieuencid yng Nghymru a Lloegr; a chydweithio â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gyflawni disgwyliad y Gweinidogion i drosglwyddo'r rôl statudol ar gyfer cyhoeddi data am y system cyfiawnder ieuencid gyfan i'r adran graidd.			
Llyfrau gwaith, arweinyfrau a dangosfyrddau data	Cynnal ein cyfres bresennol o lyfrau gwaith, arweinyfrau a dangosfyrddau.			
	Gwellu'r defnydd o ddata DPA yn ein rôl goruchwyllo perfformiad.			
	Cynnal ymarferiad archwilio a dilysu cyn cyhoeddi datganiad ystadegol swyddogol ar ddata atal a dargyfeirio .			
SWYDDOGAETH STATUDOL 6: Comisiynu gwaith ymchwil i gefnogi datblygu ymarfer.				
Ymchwil fewnol ac wedi'i chomisiynu	Cwmpasu, cynnal a chyhoeddi ymchwil fewnol ac wedi'i chomisiynu'n allanol, a fydd yn cynnwys y canlynol yn 2026/27: - Gwerthusiad cyflym mewnol o'r Llwybr Niwroddatblygiadol a ddatblygwyd gan wasanaeth cyfiawnder ieuencid Cwm Taf. - Ymchwil dan contract ynghylch Camfanteisio Troseddol ar Blant.			

GWEITHGARWCH YMRWYMEDIG A CHANLYNIAD		AMCANION STRATEGOL AR GYFER 2024 - 2027 Y BWRDD CYFIAWNDER IEUENCTID		
		Amcan 1: <i>Cefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau cyfiawnder ieuencid lleol</i>	Amcan 2: <i>Canolbwyntio ar fynd i'r afael â gwahaniaethau</i>	Amcan 3: <i>Hyrwyddo'r gwaith o fabwysiadu polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth</i>
	- Gwerthusiad cyflym mewnol o raglen “Pwyllo cyn Rhannu” Rotherham. - Ymchwil dan gontract yn canolbwyntio ar blant sy'n cyflawni troseddau rhywiol ar-lein. - Ymchwil dan gontract i sicrhau dealltwriaeth am anghenion hyfforddi ac anghenion eraill y gweithlu cyfiawnder ieuencid a llywio blaenoriaethau buddsoddi yn y dyfodol.			
Rhwydweithiau ymchwil	Cynnal perthynas sydd o fudd i'r ddwy ochr a threfniadau cydweithio rhwng y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a'r byd academiaidd.			
SWYDDOGAETH STATUDOL 7: Nodi a rhannu ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws y sector.				
Ymgysylltu â'r sector cyfiawnder ieuencid i gasglu tystiolaeth a rhannu arferion	<i>Parhau i gefnogi'r fforymau dan arweiniad ymarferwyr sy'n canolbwyntio ar weithio gyda merched a gyda bechgyn Du ac ethnigrwydd cymysg i gasglu tystiolaeth a rhannu arferion effeithiol gyda'r sector cyfiawnder ieuencid.</i>			
	Cynnal cefnogaeth ar gyfer gweithredu Gorchmynion Cadw Ieuencid yn genedlaethol drwy ddatblygu canllawiau gweithredol, gwybodaeth i blant a rhieni ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau dull cyson o ymarfer.			
Lledaenu arferion addawol	Cynnal yr Hyb Adnoddau fel adnodd ar gyfer rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth am ymarfer gyda'r sector cyfiawnder ieuencid.			

GWEITHGARWCH YMRWYMEDIG A CHANLYNIAD		AMCANION STRATEGOL AR GYFER 2024 - 2027 Y BWRDD CYFIAWNDER IEUENCTID		
		Amcan 1: <i>Cefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol</i>	Amcan 2: <i>Canolbwyntio ar fynd i'r afael â gwahaniaethau</i>	Amcan 3: <i>Hyrwyddo'r gwaith o fabwysiadu polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth</i>
Ymgysylltu â rhanddeiliaid	Adolygu fforymau presennol a'u cysylltiadau â ffrydiau gwaith thematig i sicrhau eu bod yn barod i gefnogi'r BCI pan fydd yn ymgymryd â'i rôl newydd sy'n canolbwyntio ar welliant parhaus.			
Cyfranogi	Gwella llais y plentyn wrth fodelu ein rôl Gwelliant Parhaus yn y dyfodol i sicrhau bod modd ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i lywio, siapio a herio gwaith y BCI.			
Cymru: Cydweithio â Llywodraeth Cymru a gwasanaethau sydd wedi'u datganoli a heb eu datganoli yng Nghymru i gyflawni ein hamcanion strategol a'n swyddogaethau statudol.				
Cydweithio â Llywodraeth Cymru a gyda gwasanaethau sydd wedi'u datganoli a heb eu datganoli a rhanddeiliaid sy'n gweithredu yng Nghymru i sicrhau bod ein hamcanion strategol a'n swyddogaethau statudol yn cael eu bodloni a chyflawni'r weledigaeth yn y Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid i Gymru a'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.				
Gweithio ochr yn ochr â'r heddlu a'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid i gyflawni nodau'r prosiect Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys a sicrhau cysondeb ledled Cymru.				
Parhau i chwarae rhan weithredol yn y gwaith o hwyluso partneriaeth Hwb Doeth i gysylltu academyddion ac ymarferwyr cyfiawnder ieuenctid i wreiddio ymchwil mewn ymarfer a chefnogi'r gwaith o roi'r polisi ar waith yn effeithiol.				

Ein swyddogaethau corfforaethol

Mae ein swyddogaethau corfforaethol yn galluogi'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid i weithredu fel sefydliad effeithlon, cynhwysol ac effeithiol sy'n perfformio'n dda. Maent yn rheoli swyddogaethau hanfodol i fusnes sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithrediad y sefydliad ac yn sicrhau bod ein polisiau a'n gweithdrefnau yn gyfredol ac yn cael eu cymhwyso mewn ffordd mor effeithlon â phosib.

Gweithgarwch corfforaethol	Beth fyddwn ni'n ei wneud
GWEITHREDIADAU GWEITHREDOL A CHYFATHREBU 	<i>Llywodraethu corfforaethol, cymorth gweithredol a chyfathrebu strategol effeithiol i alluogi'r BCI i weithredu'n effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol, drwy'r ffyrdd canlynol:</i> - Cymorth busnes i'r uwch dîm rheoli, y Bwrdd a chyfarfodydd ac is-bwyllgorau rheolaidd. - Darparu cyngor ad hoc a diweddariadau rheolaidd i weinidogion a swyddogion yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder. - Ymateb i ymholiadau, gohebiaeth swyddogol ac ymholiadau cyfreithiol.
RHEOLI YSTADAU AC ASEDAU 	<i>Sicrhau bod y BCI yn lle iach a diogel i weithio drwy greu gweithleoedd diogel sy'n cael eu rheoli'n dda i'n tîm weithio ynddynt.</i>
RHEOLI CYLLID AC ARCHWILIO 	<i>Rheolaeth ariannol, llywodraethiant a sicrwydd cadarn i gefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol, atebolrwydd a chyflawni cynaliadwy, drwy'r ffyrdd canlynol:</i> - Llywodraethiant, rheolaeth a sicrwydd ariannol i bennu, dirprwyo a rheoli ein cyllideb. - Cynllunio ariannol tymor canolig a chomisiynau adolygu gwariant y Weinyddiaeth Gyfiawnder. - Cynllunio'r gweithlu a llywodraethu tâl. - Tryloywder, adrodd ac atebolrwydd allanol, gan gynnwys cyhoeddi ein Hadroddiad Blyneddol a Chyfrifon.

Gweithgarwch corfforaethol	Beth fyddwn ni'n ei wneud
LLYWODRAETHU A GORUCHWYLIO GWEITHGARWCH 	<i>Llywodraethu, goruchwyllo a sicrwydd effeithiol i sicrhau bod blaenoriaethau a rhaglenni'r BCI yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus.</i> - Rheoli ein Portffolio o weithgareddau. - Rheoli rhaglenni'n effeithiol. - Goruchwyllo a rheoli risg.
TECHNOLEG GWYBODAETH 	<i>Gwasanaethau digidol diogel, dibynadwy ac arloesol sy'n galluogi gweithio'n effeithiol, diogelu gwybodaeth a chefnogi gwelliant sefydliadol.</i> - Cynnal a datblygu pensaernïaeth ein Prosiect Insights i wella'r ffordd rydym yn casglu ac yn rhannu gwybodaeth am y sector cyfiawnder ieuencid. - Sefydlu gweithgor ar ddeallusrwydd artiffisial. - Adnewyddu ein Cofrestriad Diogelu Data ac Adnewyddu Contract Seiberddiogelwch.
POBL 	<i>Arweinyddiaeth pobl strategol sy'n cefnogi gallu, llesiant, cynhwysiant a gwydnwch sefydliadol y gweithlu.</i> - Strategaeth Pobl a Gweithrediadau – cyllideb y gyflogres, cynllunio'r gweithlu, recriwtio, parhad busnes, rhaglenni newid, rheoli'r berthynas â'r tîm gwasanaethau a rennir canolog. - Ymgysylltu â Gweithwyr, Cynhwysiant a Llesiant – y grwpiau Ymgysylltu â Staff a Thegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant, dadansoddi'r ymateb i'r arolwg pobl blynyddol, gweithgareddau llesiant ariannol a'r gweithle, a chynnal y berthynas gyda'r undebau llafur. - Fframwaith Talent, Perfformiad a Chyflogaeth - Gweithgarwch dysgu a datblygu, galluogi hyfforddi a mentora, rheoli perfformiad, tâl a gwobrwyo, polisiau a chanllawiau Adnoddau Dynol a goruchwyllo disgrifiadau swydd.

Ein cyllid

Bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi ein Hadroddiad Blynnyddol a Chyfrifon lle rydym yn myfyrion ar ein cyflawniadau yn ystod y flwyddyn a'r gwerth a ddarparwn gyda'r arian cyhoeddus a dderbyniwn.

Bydd ein cyllideb yn cael ei dyrannu ar gyfer 2026 - 2027 fel a ganlyn:



Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid / Youth Justice Board

10 South Colonnade
Canary Wharf
Llundain
E14 4PU

Adeiladau Llywodraeth Cymru
Llys-y-ddraig
Parc Busnes Penlle'r-gaer
Penlle'r-gaer
Abertawe
SA4 9NX

YJB.Enquiries@yjb.gov.uk